## Diolch yn fawr!

Gobeithio bod y daflen hon wedi eich helpu i ddysgu rhagor am y gwasanaeth. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon, ffoniwch ni ac fe gawn ni sgwrs.


01656 749 235

taith.service@barnardos.org.uk

Tudalen y Gwasanaeth Dyfodol Gwell


BARNARDO'S

# BETTER FUTURES CYMRU



## PWY YDYM NI?

Mae Dyfodol Gwell yn rhan o Barnardos Cymru. Mae Barnardos yn elusen plant sy'n gweithio gyda theuluoedd ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Mae Dyfodol Gwell yn gweithio gyda phlant â phobl ifanc sy'n poeni am ymddygiad rhywiol. Mae hyn yn cynnwys pynciau fel anghenion rhywiol, hunaniaeth rywiol, cam-drin rhwng brodyr a chwiorydd, ymddygiad rhywiol niweidiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Rydym ni'n cefnogi ac yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc o bob rhywedd rhwng **5 a 21 oed.** Mae gan rai o'r plant a'r bobl ifanc rydym ni'n eu cefnogi anableddau, gan gynnwys anawsterau dysgu.

Rydym ni hefyd yn rhoi cefnogaeth i deuluoedd a gofalwyr.

Rydym ni yn y **Pîl ym Mhen-y-bont ar Ogwr.**

## EIN HADDEWID:

Byddwn ni bob amser yn sicrhau bod y pynciau rydym ni'n eu trafod yn addas i oedran, gallu, a datblygiad y plentyn/person ifanc.

Rydym ni'n gwybod bod cyfathrebu â phlant a phobl ifanc mewn ffordd ddealladwy yn bwysig, ac efallai y byddwn ni'n defnyddio adnoddau i'n helpu ni i wneud hyn. Mae'r adnoddau'n cynnwys teganau, pypedau, taflenni gwaith a llyfrau. Fel rhan o'r asesiad, byddwn ni hefyd yn siarad â rhieni/gofalwyr ac ysgolion.



## ADBORTH GAN BERSON IFANC SYDD WEDI DEFNYDDIO'R GWASANAETH:

*"Does dim angen gwella'r gwasanaeth. Roedd yr holl gyngor yn ddefnyddiol iawn.*

*Roedd pawb yn groesawgar a chyfeillgar."*



## BETH YW YMDDYGIAD RHYWIOL NIWEIDIOL?

Mae ymddygiad rhywiol niweidiol (HSB) yn cyfeirio at ymddygiad plant a phobl ifanc nad yw'n addas i'w oedran na'u datblygiad. Gallai fod yn niweidiol i'w hunain, neu i blentyn, person ifanc neu oedolyn arall. Mae ymddygiad rhywiol niweidiol yn gallu golygu cyffwrdd ond fe allai hefyd gynnwys ymddygiad lle nad oes cyffwrdd wedi digwydd. Mae'n gallu digwydd wyneb yn wyneb ac ar-lein.



## BETH YW CAMFANTEISIO RHYWIOL?

Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn fath o gam-drin rhywiol sy'n cynnwys plentyn neu berson ifanc ac sydd fel arfer yn cynnwys elfen o gyfnewid, e.e. gweithgareddau rhywiol yn gyfnewid am arian, cyffuriau, rhoddion, ennill hoffter rhywun neu ddiwallu anghenion emosiynol neu anghenion eraill. Gall hefyd gynnwys tynnu rhywbeth yn ôl, gan gynnwys rhoi'r gorau i drais neu fygythiadau i gam-drin unigolyn arall. Gall ddigwydd wyneb yn wyneb neu ar-lein.



## Yr Adroddiad Asesu:

Bydd yr adroddiad yn edrych ar y rhesymau pam fod y pryderon a gyfeiriwyd atom wedi codi. Bydd hefyd yn trafod pa gefnogaeth rydym ni'n credu y byddai'r plentyn/person ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn elwa ohonynt, ac mae'r adroddiad yn cynnwys cyngor ar sut i gadw pawb yn ddiogel. Efallai y byddwn ni'n argymell i'r plentyn ddychwelyd atom ni i gael rhagor o sesiynau er mwyn i ni allu helpu. A dweud y gwir, rydym ni'n gwneud hyn yn aml. Yr enw am hyn yw rhaglen waith. Byddwn ni hefyd yn gwneud argymhellion eraill i'r rhieni/gofalwyr/asiantaeth atgyfeirio/ysgol.

Rydym ni o'r farn mai'r Asesiad sy'n 'canfod y broblem' a'r rhaglen waith sy'n 'datrys y broblem'. Yna, byddwn ni'n casglu'r holl wybodaeth ynghyd ac yn ysgrifennu adroddiad.

## YSTAFELLOEDD:


Mae gennym ni bedair ystafell braf yn ein swyddfeydd Dyfodol Gwell lle caiff y sesiynau eu cynnal…



Ystafell 1



Ystafell 2



Ystafell 3



Ystafell 4

## SUT MAE CAEL GAFAEL AR Y GWASANAETH?

Mae asiantaethau fel y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn atgyfeirio pobl ifanc atom ni.

## BETH SY'N ARWAIN AT ATGYFEIRIO PLENTYN NEU BERSON IFANC ATOM NI?

Mae atgyfeiriadau yn cael eu gwneud pan fo rhywun yn poeni am ymddygiad rhywiol plentyn neu berson ifanc, neu os oes pryderon ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant. Yn aml iawn, mae'r pryderon yn ymwneud â'r ddau beth.

Rydym ni'n deall ei bod hi'n eithriadol o anodd i bawb pan fo pryderon yn codi am ymddygiad rhywiol plentyn neu berson ifanc, yn enwedig wrth geisio dod i ddeall beth sydd wedi digwydd. Rydym ni eisiau cefnogi pobl drwy wneud synnwyr o'r pryderon hyn ac o'r rhesymau pam maen nhw wedi codi, yn ogystal ag atal pryderon o'r fath rhag codi eto a chadw pawb yn ddiogel. Rhan ganolog o'r Gwasanaeth yw cydnabod bod meithrin ymddiriedaeth a sefydlu perthynas gadarnhaol yn hanfodol ar gyfer unrhyw ymyriad llwyddiannus. Ein nod yw datblygu perthynas anfeirniadol a llawn ymddiriedaeth rhwng yr ymarferydd a'r plentyn/ person ifanc.

## ASESIAD:

Fel arfer, bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud i gynnal asesiad. Efallai bod hyn yn codi ofn arnoch, ac rydym ni'n deall ei bod hi'n anodd cwrdd â phobl newydd mewn llefydd newydd weithiau, yn enwedig i drafod rhai pynciau. Ond mae'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn y gorffennol yn dweud nad oes angen poeni. Mae pawb yn gyfeillgar a chymwynasgar ac eisiau'r gorau i'r rhai sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth.

## BETH YW'R BROSES ASESU?

Bydd y plentyn neu berson ifanc yn ymweld â ni i gwrdd â'u gweithiwr penodedig

Bydd y gweithiwr yn trafod y gwasanaeth ac yn sicrhau eu bod yn deall popeth amdanom

Os yw'r plentyn/person ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn hapus i fwrw ymlaen...

Byddan nhw'n cael rhwng 3 a 5 o sesiynau gyda ni. Bydd y sesiynau hyn yn para rhwng 1 a 1.5 awr, ac

Byddwn ni'n trafod amryw o bethau, gan gynnwys:

Teulu, profiadau wrth dyfu i fyny, ffrindiau, diddordebau, teimladau, yn ogystal â beth y mae'r plentyn/person ifanc yn ei wybod am ddatblygiad, glasoed, perthnasoedd a rhyw. Byddwn ni hefyd yn trafod y rhesymau pam mae pobl yn poeni, ac efallai y byddwn ni'n gofyn i'r plentyn/person ifanc lenwi holiaduron.